

## Cyfarwyddiadau ar gyfleu defnyddiau isdeitlo a defnyddiau atodol eraill i S4C

Ionawr 2015

I sicrhau fod gwasanaethau mynediad yn gweithio'n effeithiol ar gyfer y gwasanaeth darlledu disgwylir i'r cyfarwyddiadau canlynol gael eu dilyn.

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r rhaglenni, dylai ffeiliau isdeitlo gyrraedd S4C o leiaf 2 ddiwrnod gwaith **llawn** cyn y darllediad cyntaf. Os yw rhaglen i'w darlledu am 8 ar nos Wener, dylai'r deunydd gyrraedd cyn 5 o'r gloch ar y dydd Mercher ar yr hwyraf.

Mae'r tabl isod yn dangos y gwahanol categorïau o raglenni a'r effaith mae hyn yn cael ar gyfnodau cyfleu.

Categori	Tâp darlledu i gyrraedd S4C	Deunydd gorffenedig i gyrraedd S4C
Rhaglen i'w hisdeitlo yn Gymraeg neu'r Saesneg	O leiaf 2 ddiwrnod cyn y darllediad, (copi off-line i'w anfon yn gynt at y cwmni isdeitlo os yn bosibl)	Ffeil isdeitlo i gyrraedd 2 ddiwrnod gwaith clir cyn y darllediad cyntaf.
Rhaglenni hwyr (amserol) a rhaglenni byw	Trefniadau arbennig yn bosibl ar gyfer y rhain.	Trefniant arbennig
Rhaglen gydag isdeitlau BIST	Tâp i gyrraedd o leiaf 4 diwrnod cyn y darllediad	Ffeil isdeitlau i gyrraedd 3 diwrnod gwaith clir cyn y darllediad.
Rhaglen i'w harwyddo	Tâp i gyrraedd 8 diwrnod gwaith clir cyn y darllediad arwyddo.	Ffeil isdeitlo i gyrraedd 6 diwrnod cyn darllediad. Tâp gorffenedig i gyrraedd o leiaf 1 diwrnod cyn y darllediad arwyddo.
Rhaglen gyda sain ddisgrifiad (audio description)	Tâp gwreiddiol i gyrraedd 7 diwrnod gwaith clir cyn darlledu	Tâp gorffenedig i gyrraedd 2 ddiwrnod cyn y darllediad

Mae'r dyddiau a nodir yn ddyddiau gwaith, Llun i Gwener, ac nid yw hyn yn cynnwys Gwyliau Banc.

Bydd rhai penderfyniadau ynglŷn â rhaglenni gydag isdeitlau agored, arwyddo ac ati yn cael eu gwneud yn gynnar iawn yn y broses gomisiynu, ond yn anorfod bydd eraill yn ddibynnol ar yr amserlen. Fe hysbysir y Cwmnïau Cynhyrchu a'r Cwmnïau Isdeitlo gan S4C o'r rhaglenni hyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.

Y cyswllt ar gyfer hyn yw Meleri Wyn Flint - [meleri.wyn.flint@s4c.cymru](mailto:meleri.wyn.flint@s4c.cymru) / 02920 741207

## **Manylion**

### **1. Adolygu**

Gan amlaf, y bwriad yw cyflawni'r gwaith adolygu o fewn wythnos waith arferol, sef o ddydd Llun i ddydd Gwener. Er mwyn i'r system ddarlledu isdeitlau awtomatig weithio ar ei gorau mae angen i'r ffeiliau isdeitlau fod wedi'u hadolygu erbyn:

- 4 o'r gloch y prynhawn y diwrnod cyn darlledu yn ystod yr wythnos;
- 4 o'r gloch brynhawn Gwener ar gyfer rhaglenni'r penwythnos a rhaglenni dydd Llun.

Dylid cyflwyno'r ffeiliau isdeitlau'n gynt ar gyfer gwyliau banc a gwyliau cyhoeddus eraill.

Mewn sefyllfa o argyfwng, eich dyletswydd chi fydd rhybuddio S4C o unrhyw newid, a bydd trefniant pendant ar gyfer cyfleu i'w drafod.

### **2. Ffeiliau mpeg**

Os na fydd y cwmni cynhyrchu mewn sefyllfa i baratoi ffeil mpeg ar gyfer y cwmni isdeitlo, bydd S4C yn paratoi'r ffeil unwaith fydd y prif dâp wedi cyrraedd.

### **3. Rhifau cynhyrchu**

Dylid enwi'r ffeil isdeitlau yn unol â rhif cynhyrchu'r rhaglen.

Mae rhifau cynhyrchu rhaglenni cynhyrchwyr annibynnol gan amlaf yn y fformat:

I/nnnnn/ppp	e.e TEITL 47 I/15481/47
(I)	<i>Llythyren I am Independent.</i>
(n)	<i>Pum ffigwr i ddynodi rhif y cynhyrchiad</i>
(p)	<i>Rhif y bennod</i>

Dylid defnyddio'r rhif cynhyrchu gan hepgor yr arwydd '/'. Er mwyn cadw at 8 gofod ar gyfer rhan gyntaf enw'r ffeil dylai fformat enw'r ffeil isdeitlau ddilyn y patrwm a ganlyn:-

I nnnnn pp.stl

Felly yn yr enghreifftiau uchod, enw'r ffeil isdeitlau ar gyfer Teitl uchod fyddai I1548147.stl ac ar gyfer cyfresi sy'n hwy na 99 o benodau, dylid ychwanegu '0' (dim) cyn y ddau rif olaf.

#### 4. Manylion y rhaglen

Dylid llenwi manylion pob rhaglen o fewn eich ffeil isdeitlo.

Dyma'r math o fanylion sydd eu hangen:

- Teitl y rhaglen a'r rhif cynhyrchu
- 888 / 889
- Enw'r cwmni isdeitlo a/neu'r isdeitlydd
- Dyddiad darlledu

#### 5. Cynnwys yr isdeitlau

Dylai'r isdeitlau adlewyrchu gofynion "Canllawiau S4C ar gyfer Isdeitlwyr yng Nghymru" gan gynnwys yn benodol:

1. yr angen i gadw at 36 llythyren ymhob llinell ar gyfer ein hoffer darlledu presennol.
2. yr angen i isdeitlo'r rhaglen yn gyfan gan gynnwys caneuon a phytiau o gerddoriaeth ac effeithiau sain at ddibenion y byddar a'r trwm eu clyw yn ogystal â'r di-Gymraeg.

#### 6. Isdeitlau cyntaf y ffeil (a dechrau pob rhan)

Dylid cynnwys isdeitlau rhagarweiniol ar ddechrau'r ffeil. Rhaid i'r isdeitlau cyntaf fod yn union ar ffrâm gyntaf y rhaglen, yn dweud "Subtitles" mewn "cyan" ar gefndir glas. Dylai'r cyntaf fod ddim ond yn 5 ffrâm o hyd gydag ail isdeitl dwy eiliad o hyd (add-on) yn ymddangos 7 ffrâm yn ddiweddarach. Dylai'r capsiynau "Subtitles" barhau yn gyson bob 5-6 eiliad os yw'r teitlau agoriadol yn hirach na'r cyffredin er mwyn cadarnhau i'r gwylwr bod isdeitlau ar y rhaglen. Os nad oes amser i gynnwys dau isdeitl "Subtitles", dylid gosod un isdeitl seren (\*) 5 ffrâm ar ffrâm gyntaf y rhaglen, "cyan" ar gefndir glas.

Ar gyfer ail ran a rhannau dilynol y rhaglen, dylid cynnwys dau gapsiwn "Subtitles" rhagarweiniol yr un fath, a'r un hyd, â'r rhai ar gyfer dechrau'r rhaglen. Dylai'r cyntaf fod yn union ar ffrâm gyntaf y rhan, yn 5 ffrâm o hyd gydag ail isdeitl "Subtitles" dwy eiliad o hyd (add-on) yn ymddangos 7 ffrâm yn ddiweddarach. Eto, os nad oes amser i hyn, dylid gosod isdeitl seren (\*) 5 ffrâm, "cyan" ar gefndir glas, ar ffrâm gyntaf y rhan.

Mae hefyd angen cynnwys un dot (.) 5 ffrâm ar ddiwedd pob rhan er mwyn sicrhau bod yr isdeitl olaf yn y rhan yn clirio.

#### 7. Cydnabyddiaeth i'r isdeitlydd a/neu'r cwmni isdeitlo

Caniateir un llinell, i ymddangos 5 ffrâm i mewn i'r 'endboard' i barhau dim mwy na 2 eiliad a 15 ffrâm. Dylid gosod dot 5 ffrâm yn unig ar ôl y gydnabyddiaeth.

## **8. Anfon ffeiliau trwy e-bost**

Dylid anfon ffeiliau isdeitlau fel arfer drwy e-bost er mwyn caniatáu i'r isdeitlau gael eu hadolygu.

Dylai'r ffeiliau isdeitlau fod yn fformat EBU (.STL)

Y cyfeiriad e-bost yw [isdeitlo@s4c.cymru](mailto:isdeitlo@s4c.cymru) Dylid hefyd anfon copi at [isdeitlo@testun.co.uk](mailto:isdeitlo@testun.co.uk)